# YMATEB 'ACHUBWCH Y TEIFI'

## I'R SGANDAL CARTHION YNG NGWEITHFEYDD CARTHION ABERTEIFI A GOLLYNGIADAU HEB EU TRWYDDEDU YN TEIFI IS A'R ABER

**Pump gofyniad**

WWW.TEIFI.ONE

## 01

**YN DDIYMDROI, ATAL LLIF LLYGREDD O WEITHFEYDD CARTHION ABERTEIFI A'R GOLLYNGIADAU HEB EU TRWYDDEDU O GARTHION AMRWD**

### Mater:

Ardal Aberteifi o Afon Teifi yw'r achos gwaethaf ar goedd o lygredd carthion - gollyngiadau o'r gweithfeydd carthion a gollyngiadau heb eu trwyddedu o garthion amrwd – yng Nghymru, (yn ôl Peter Hammond 2023). Mae'r gymuned a bywyd gwyllt lleol wedi gorfod byw gyda hyn am dros ddegawd. Cafwyd nifer o gyfarfodydd rhwng 'Achubwch y Teifi' a Dŵr Cymru, pan soniwyd am rywfaint o dreiddiad dŵr y mor oedd yn effeithio'r prosesu, ond ni chafwyd tryloywder llawn parthed hyd a lled y materion. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r sefyllfa hon am dros ddeng mlynedd ac wedi methu naill ai rheoleiddio neu osod unrhyw gosb. Mae'r gymuned yn ddig iawn bod hyn wedi bod yn digwydd am cyhyd ac wedi ei harswydo gan yr effeithiau ar fioamrywiaeth ac ar iechyd cyhoeddus.

### Datrysiad:

Dechrau'r gwaith ar weithfeydd carthion Aberteifi yn brydlon neu ddarparu tystiolaeth gadarn am pam mae na oedi wrth ddechrau'r gwaith.

Defnyddio'r cyfle o'r gweithfeydd newydd i sefydlu dulliau natur-gyfeillgar fel rhan o'r datrysiad, neu ddarparu tystiolaeth gadarn am pam nad yw y rhain yn bosib.

02

## AR FRYS, AWDURDODAU I GYNNAL MONITRO GRYMUS A CHYFUN O LYGREDD YN YR AFON A'R ABER AC O ANSAWDD Y DŴR YMDROCHI AR DRAETH POPPIT

**Mater:** Mewn ymateb i gyhoeddiad diweddar o asesiad Peter Hammond o gollyngiadau heb eu trwyddedu o garthion o weithfeydd carthion Aberteifi, danfonodd Dŵr Cymru lythyr at breswylwyr yn datgan nad oedd effaith amgylcheddol yn sgil hyn achos bod ansawdd dŵr ymdrochi Traeth Poppit yn cwrdd â safonau 'rhagorol' o ran ansawdd dŵr ymdrochi. Mae hyn yn gwrth-ddweud profiad y gymuned.
Adroddir llawer aelod o'r gymuned am y dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn iechyd yr afon yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Dros nifer o flynyddoedd diweddar, bu cynnydd arwyddocaol o achosion o lygredd carthion, pan gafwyd drewdod andwyol a gor-dyfiant algaidd, gyda dychryn mawr am y dirywiad cyflym yn y nifer o rywogaethau. Mae'n cael ei ystyried yn ddangosydd annigonol o effaith gollyngiadau carthion gan fod y dŵr ymdrochi ond yn cael ei fesur yn ystod misoedd yr haf pan geir llai o ollyngiadau. Ychwaith, nad yw'n mesur effaith amgylcheddol ar ansawdd y dŵr yn yr aber, ei chynefin na'i bioamrywiaeth - mater sy'n cymlethu'r rhyngwyneb rhwng dyfroedd afonol ac arfordirol.

**Datrysiad:**
Gweithredu monitro ansawdd yr ardaloedd a effeithiwyd gan y gollyngiadau carthion yn ôl y Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn flynyddol, gan gynnwys yr aber. Creu llwyfan i rannu, mewn amser go iawn, holl ddata a thystiolaeth sydd gan yr awdurdodau ar iechyd afonol yn y rhan is o'r dalgylch, yr aber a'r dyfroedd arfordirol lleol.

Dŵr Cymru i amlinellu sut mae'n asesu effaith y gollyngiadau carthion ar yr amgylchedd a chyhoeddi'r canlyniadau am safleoedd fel maent yn dod i'r afael.

Dyfroedd ymdrochi Traeth Poppit a Gwbert i'w profi trwy gydol y flwyddyn.

Cyhoeddi, a rhannu mewn modd hygyrch, gwybodaeth asesu a monitro deinameg llanwol yr adran aberol, er mwyn deall effeithiau llygredd ailgylchedig.

Profiadau y cymunedau o'r dirwyiad mewn iechyd amgylcheddol yr afon a'r aber dros y deng mlynedd diwethaf i'w cofnodi fel rhan o'r dystiolaeth ansoddol, ochr yn ochr â'r 'dulliau meintiol a seiliwyd ar wyddoniaeth' , am iechyd afonol cyfredol.

# 03

**RHAGLEN WYDDONIAETH DDINESIG GYFUN AR Y GWEILL ERBYN HAF 2024**

**Mater:** Am nifer o flynyddoedd, bu cymunedau ar hyd yr afon yn gofyn CNC a Dŵr Cymru am rhaglen wyddoniaeth ddinesig i gefnogi eu hasesiad o iechyd afonol ac ansawdd y dŵr ymdrochi. Dyma gyfle i'r awdurdodau a'r cymunedau i gyd-weithio.

**Datrysiad:** Ymrwymo'r gymuned weithredol mewn rhaglen wyddoniaeth ddinesig gyfun ar hyd yr afon, yn yr aber a dyfroedd ymdrochi Traeth Poppit a Gwbert. Dylai hyn cynnwys nifer o ddulliau, cemegol a gweladwy.

Cefnogi a gweithio gyda monitro gwyddoniaeth ddinesig barhaus i adnabod ffynonellau llygredd mewn mannau penodol a gwasgaredig.

Defnyddio hyn i dargedu adnoddau'r awdurdodau yn fwy effeithiol tuag at fonitro manylach a gweithredu brys i daclo'r ffynonellau llygredd hyn.

04

## CNC I WEITHREDU FEL RHEOLYDD, GORFODWR, AC AMDDIFFYNYDD NATUR

**Mater:** Mae'r cysylltiad rhwng llygredd all-lifau gweithfeydd trin dŵr gwastraff (wedi ei drin ac amrwd) a'r effaith ar fywyd gwyllt wedi ei dystiolaethu'n dda. Mae caniatáu gollyngiadau heb eu trwyddedu o garthion i barhau, yn enwedig i mewn i afon sydd wedi ei hadnabod fel Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n methu tardgedau ffosffad, yn anesgusodol. Rydym mewn argyfwng natur a ni allwn fod yn hunanfodlon parthed lleihad rhywogaethau a cholledion cynefin. Heblaw bod yna weithredu ar unwaith, bydd eogiad wedi darfod yn yr afon Teifi erbyn deng mlynedd (CNC 2023); cafwyd dirywiad o 22% ym mhoblogaeth dyfrgwn ar draws Gymru, a'r Teifi yw'r un o'r dalgylchoedd sydd wedi ei heffeithio gwaethaf (CNC 2022). Fel yr ysglafaethwyr uchaf, mae'r ddwy rywogaeth yn ddangosyddion biolegol pwysig o gyflwr yr holl gyfundrefn ddyfrol.

Yn amlwg, nid ydy dull cyfredol CNC wedi gweithio achos mae wedi methu gweithredu ar gollyngiadau carthion heb eu trwyddedu a digwyddiadau llygru eraill, sydd wedi eu cofnodi, trwy dalgylch y Teifi dros lawer o flynyddoedd. Mae'r perthynas 'Tîm Cymru' rhwng Dŵr Cymru a ChNC yn aneffeithiol. Rhaid i GNC fod yn rheolydd nid galluogwr. Eisoes, mae Dŵr Cymru wedi cydnabod eu bod yn blaenoriaethu buddsoddi mewn ymateb i bwysau'r rheolydd. Mae'r gymuned yn ddig bod y sefydliad sydd yn gyfrifol am warchod natur wedi methu'n llwyr i wneud hyn.

**Datrysiad:** CNC i gael adnoddau digonol i fonitro'n gyflym ac i gynnal gweithredu gorfodi.

Cosbau llymach i'w gosod ar sefydliadau, unigolion, ac awdurdodau pan yn gweithredu'n anghyfreithlon – i ariannu'r gwaith hyn.

Ail-droswddwyr i gael dirywion uwch.

Dirywion pwynt eu hoedi am 3 mis i alluogi'r llygredwr i wella's sefyllfa. Methiant i gymryd camau arwyddocal yn arwain ar ddyblu'r diryw.

Gan fod Dŵr Cymru yn gwmni nid-er-elw, dylai'r dirywon cael eu cymryd wrth pecynnau cyflog a'u defnyddio i fuddsoddi mewn gwelliannau.
Asesu holl gollyngiadau trwyddedig cyfredol am dor-rheolau o'r drwydded a gosod cosbau uniongyrchol.

Adolygu'r holl drwyddedau am ollyngiadau carthion, i gynnwys asesiad o faint ac ansoddiad, a gorfodi lle bynnag bu tro-rheolau.

# 05

## PSG A CHYFARWYDDWYR GWEITHREDOL I FOD YN ATEBOL AM DDIOFALWCH PROFFESIYNOL PARTHED I'R NIWED A WNAED I'R AFON A'R EFFAITH AR GYMUNEDAU, NATUR, A CHENEDLAETHAU'R DYFODOL.

**Mater:** Mae'r gymuned yn ddig bod rheolwyr hŷn Dŵr Cymru a ChNC wedi goruwchwylio'r gollyngiadau heb eu trwyddedu o garthion am dros ddegawd. Yn ogystal, mae yna ddicter achos pan mae'r gymuned yn adrodd ar garthion yn yr afon a'r aber, gor-dyfiant algai neu drewdod gwenwynig yn cynyddu, dywedyd bod y rhain yn naturiol a/neu nad oes cysylltiad rhwyngddynt â'r gollyngiadau o garthion neu fethiannau yn y gweithfeydd carthion. Arweinwyd hyn at dor-ymddiriedaeth mewn Dŵr Cymru a ChNC. Nid yw'r gymuned yn credu eu bod wedi darparu'r gwasanaeth maent wedi cytundebu i wneud, nac eu bod yn gweithio i amddiffyn natur, cymunedau, na chenedlaethau'r dyfodol. Yn hytrach, maent wedi bod yn amddiffyn enw da eu sefydliadau a chuddio'u methiannau. Mae'r niwed a'r colledion a achoswyd wedi arwain at toriad o'u dyletswydd i ofalu, sy'n gyfystyr â esgeulustod proffesiynol.

**Datrysiad:** Cyflog amrywiadwy (Dŵr Cymru) neu adolygiadau perfformiad (Dŵr Cymru a ChNC) PSG, Cyfarwyddwyr Gweithredol, a'r rheolwyr hŷn i gynnwys strwythurau perfformiad ar sail mesuriadau amgylcheddol a'r amddiffyniad o genedlaethau'r dyfodol. Petai hyn yn digwydd, ni dylai unrhyw tâl ychwanegol na fonysau cael eu gwobrwyo. Dylai cyfarwyddwyr, gweithredwyr a rheolwyr hŷn bod ar 'rhybydd ymddygiad', gyda'r gofyniad o welliannau sylweddol er mwyn cadw eu safleoedd.

Ni ddylai gwelliannau i'r gweithfeydd afonol a charthion ddod wrth filiau'r cwsmeriaid.

Yn ogystal, mae'r gymuned yn gofyn am ymddiheuriad ysgrifenedig am y gollyngiadau carthion i'r afon a'r aber, a chynllun gweithredu, gyda dyddiadau ar gyfer gweithredu, ar gyfer gwelliannau brys – nid llythyr yn datgan bod y cyfryngau wedi cam-gynrychioli'r materionn nac yn awgrymu nad oes effaith achos mae'r dŵr ymdrochi yn 'wych'.

# ACHUBWCH Y TEIFI

WWW.TEIFI.ONE